

# HER HINSAWDD

## TROSOLWG I ATHRAWON

### Cynnwys

- Cyflwyniad
- Darllen cefndirol
- Amcanion *Her Hinsawdd*
- Cysylltiadau â'r cwricwlwm
- Strwythur *Her Hinsawdd*
- Gwahaniaethu
- Grŵp oedran
- Amseriadau
- Amlinelliad manwl o'r adnoddau
- Dinasyddiaeth fyd-eang
- Cydnabyddiaethau

### Cyflwyniad

Mae newid hinsawdd eisoes yn effeithio ar filiynau o bobl o amgylch y byd. Mae'r adnoddau hyn yn canolbwyntio ar effaith newid hinsawdd ar bobl; sut mae cymunedau yn cael eu heffeithio gan newid hinsawdd, a sut maent yn addasu iddo.

Ar raddfa fyd-eang, mae llawer o ffermwyr yn sylwi ar newidiadau graddol, ond arwyddocaol, mewn tymheredd a phatrymau glaw sy'n ei gwneud hi'n anoddach gwybod pryd sydd orau i blannu, trin a chynaeafu cnydau. Mae prisiau bwyd yn codi ac mae ansawdd bwyd yn disgyn. Mae mwy o bobl yn llwgu. Amcangyfrifir y gall nifer y bobl sydd mewn perygl o newyn fod 10 – 20 y cant yn fwy erbyn 2050 na fyddai'r disgwyl heb newid hinsawdd.<sup>i</sup>

O gwmpas y byd, mae trychinebau fel llifogydd a sychder yn digwydd yn amlach, ac maent yn fwy dwys. Bob blwyddyn ers 2000, mae dros chwarter biliwn o bobl wedi colli eu cartrefi, eu bywoliaethau neu'u hiechyd o ganlyniad i drychinebau. Yn y Deyrnas Unedig, amharwyd ar filoedd o fywydau gan lifogydd mawr yn ne Lloegr yn ystod gaeaf 2013-14, gaeaf gwlypaf y wlad am 250 o flynyddoedd. Dywedodd y Swyddfa Dywydd y gallai fod cysylltiad rhwng y glaw mwyaf ar gofnod a newid hinsawdd, gan alw am fwy o waith ymchwil<sup>ii</sup>.

Mae newid hinsawdd yn effeithio ar bawb, ond bydd llawer o bobl mewn gwledydd tlotach yn cael eu heffeithio'n fwy na llawer o bobl mewn gwledydd cyfoethocach. A phobl sy'n byw yn yr ardaloedd sydd â lleiaf o sicrwydd bwyd fydd yn cael eu taro galetaf. Yn eironig (ac yn annheg), y bobl sy'n cyfrannu leiaf at newid hinsawdd yw'r rhai sy'n dioddef fwyaf.

Er bod holl bobl dlawd y byd yn agored i niwed gan newid hinsawdd a thywydd eithafol, mae merched yn aml yn fwy agored i niwed gan eu bod yn aml yn ysgwyddo baich trymach o ran cyfrifoldebau, ac yn fwy dibynnol ar adnoddau naturiol i wneud eu tasgau. Mae'r cyfrifoldebau hyn fel arfer yn cynnwys gofalu am blant a chyflawni tasgau sy'n aml yn dibynnu ar gael dŵr glân. Mae dynion yn aml mewn sefyllfa gryfach i ymdopi (hynny yw, yn llai agored i niwed) am fod ganddynt fwy o gyfle i fod yn rhan o economi arian parod.

Mae mynd i'r afael â newid hinsawdd yn rhan hanfodol o waith Oxfam, yn enwedig gan ei fod yn bygwth gwrthdroi llawer o'r datblygiadau a wnaed o ran lleihau tloti dros y degawdau blaenorol. Rydym yn gweithio o amgylch y byd i helpu cymunedau i ddeall ac addasu i'r newidiadau maent yn wynebu, ynghyd â lleihau peryglon. Mae Oxfam yn herio arweinwyr byd i gymryd camau mwy uchelgeisiol yn erbyn newid hinsawdd. Rydym yn ymgyrchu am daro bargaen fyd-eang sy'n well ac yn fwy cadarn, gan fynnu eu bod yn cymryd camau i:

- Leihau allyriadau.
- Galluogi gwledydd a chymunedau bregus i addasu i newid hinsawdd – gan gynnwys cronfa hinsawdd ryngwladol.
- Gwthio am symudiad byd-eang tuag at allyriadau carbon isel.

Credwn y gellir mynd i'r afael â newid hinsawdd, gan osgoi trychinebau, os yw arweinwyr byd yn gweithredu gyda'i gilydd, a hynny'n fuan.

Drwy gydol *Her Hinsawdd*, mae cyfleoedd i ddysgwyr rannu'r hyn maent yn dysgu a chodi ymwybyddiaeth o effaith newid hinsawdd ar bobl. Cânt eu hannog i ddefnyddio amrywiaeth eang o gyfryngau, fel creu taflenni, posteri, areithiau, erthyglau i bapur newydd lleol neu eitem newyddion ar gyfer radio neu deledu, gan gefnogi eu datblygiad fel dinasyddion byd-eang gweithgar. Ffordd ddelfrydol i ddysgwyr rannu eu

gwaith gyda chynulleidfa ehangach yw iddynt yrru eu deunyddiau i Addysg Oxfam Cymru: [oxfamcymru@oxfam.org.uk](mailto:oxfamcymru@oxfam.org.uk). Gallwn roi detholiad ohonynt ar ein gwefan i ysgolion eraill gael eu gweld.

### Cyfeirnodau

M.L. Parry, et al (2009) 'Climate change and hunger: Responding to the challenge', Rhaglen Fwyd y Byd, gan ddyfynnu W. Easterling a P. Aggarwal (2007) 'Food, Fibre and Forest Products', yn M.L. Parry et al (2007) 'Climate Change 2007: Impacts, Adaptation and Vulnerability. Contribution of Working Group II to the Fourth Assessment Report of the Intergovernmental Panel on Climate Change', Cambridge University Press. Noder bod yr ymchwil yn tybio 'a development pathway of continuing high population growth and regional disparity of income':  
<http://www.ipcc.ch/pdf/assessment-report/ar4/wg2/ar4-wg2-chapter5.pdf>

"Y Stormydd Diweddaraf yn y DU (Swyddfa Dywydd, 2014)  
[http://www.metoffice.gov.uk/media/pdf/n/i/Recent\\_Storms\\_Briefing\\_Final\\_07023.pdf](http://www.metoffice.gov.uk/media/pdf/n/i/Recent_Storms_Briefing_Final_07023.pdf)

### Darllen cefndirol

Mae'r adnoddau hyn yn canolbwyntio ar effaith newid hinsawdd ar bobl: sut mae cymunedau o amgylch y byd yn cael eu heffeithio gan newid hinsawdd a sut mae pobl yn ymateb ac addasu i'r heriau hyn. Mae'r gweithgareddau yn y ddwy sesiwn gyntaf yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o beth yw newid hinsawdd a sut mae gweithgareddau pobl yn cyfrannu at hyn. Gall y dolenni canlynol fod o ddefnydd os ydych eisiau addysgu'r agweddau hyn ar newid hinsawdd mewn mwy o fanylder:

- The Guardian: How to teach climate change

<http://www.theguardian.com/teacher-network/teacher-blog/2014/mar/03/how-to-teach-climate-change>

- TES Connect: Climate change

<http://www.tes.co.uk/TaxonomySearchResults.aspx?area=resources&keywords=climate+change>

- The Science Museum's Climate Science Info Zone

<http://www.sciencemuseum.org.uk/climatechanging/climatescienceinfozone.aspx>

- *Climate Guide* y Swyddfa Dywydd

<http://www.metoffice.gov.uk/climate-guide>

- Climate Kids: NASA's Eyes on the Earth

<http://climatekids.nasa.gov/>

- Polisi ac Arfer Oxfam. Mae'r blog newid hinsawdd yn cynnwys astudiaethau achos cyfredol a thrafodaeth am ein gwaith ar newid hinsawdd:

<http://policy-practice.oxfam.org.uk/our-work/climate-change-drr>

- Y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC)

Adroddiad diweddaraf yr IPCC yw'r ffynhonnell orau i droi ati i weld ffrwyth y gwaith ymchwil diweddaraf ar newid hinsawdd:

<http://www.ipcc.ch/report/ar5/>

- Yr Atlas Carbon Byd-eang

<http://www.globalcarbonatlas.org/?q=en/emissions>

### **Amcanion Her Hinsawdd**

- Cynorthwyo dealltwriaeth dysgwyr o beth yw newid hinsawdd a sut mae gweithgareddau pobl yn cyfrannu tuag at hyn.
- Datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o bobl a chymunedau sy'n cael eu heffeithio gan newid hinsawdd, a'u hempoethi tuag atynt.
- Datblygu dealltwriaeth dysgwyr o beth yw addasu i newid hinsawdd a sut mae rhai cymunedau yn addasu i effeithiau newid hinsawdd.
- Ystyried gwahanol gamau y gall unigolion, cymunedau a phobl sy'n gwneud penderfyniadau eu cymryd i ymateb i newid hinsawdd.

### **Cysylltiadau â'r cwricwlwm**

Mae'r gweithgareddau yn yr adnoddau hyn yn gysylltiedig â nifer o feysydd yn y cwricwlwm gan gynnwys gwyddoniaeth, Cymraeg/Saesneg a daearyddiaeth. Gall y deunyddiau hyn fod yn ddefnyddiol hefyd fel rhan o bwnc yn ymwneud a'r amgylchedd neu fel rhan o ddulliau ysgol gyfan i leihau effaith amgylcheddol yr ysgol a/neu'r gymuned.

### **Strwythur Her Hinsawdd**

- Cynlluniau ar gyfer chwe sesiwn
- Dwy sioe sleidiau

Yn ddelfrydol, bydd y dysgwyr yn cwblhau'r chwe sesiwn. Ond mae'r adnoddau'n hyblyg ac wedi'u strwythuro i alluogi athrawon i greu teithiau dysgu personol i'w dysgwyr. Yn dibynnu faint o amser sydd ar gael, ac anghenion presennol y disgyblion o ran gwybodaeth, dealltwriaeth a dysgu, gall athrawon ddewis hepgor rhai sesiynau a/neu weithgareddau. Gall fod yn briodol hefyd i wasgaru'r gweithgareddau sydd mewn rhai sesiynau dros fwy nag un wers.

Mae pob sesiwn yn dechrau gyda throsolwg, gan gynnwys amcanion dysgu, canlyniadau dysgu, cwestiynau allweddol a chysylltiau â'r cwricwlwm. Rhoddir awgrymiadau o weithgareddau ynghyd ag amseroedd bras. Nid oes gweithgareddau cychwynnol na gweithgareddau dosbarth llawn wedi'u rhoi gan y tybir y bydd yr athrawon eisiau cynllunio'r rhain yn unigol. Ond gall llawer o'r gweithgareddau gael eu haddasu at y diben hwn. Mae unrhyw daflenni adnodd neu weithgaredd wedi eu cynnwys yn y cynllun sesiwn.

- **Sesiwn 1: Beth yw newid hinsawdd?**

Bydd dysgwyr yn gyntaf yn archwilio eu syniadau presennol am newid hinsawdd. Yna byddant yn defnyddio'r wybodaeth i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o newid hinsawdd. Yn olaf, byddant yn gwneud gweithgaredd ymarferol i atgyfnerthu eu dealltwriaeth o beth yw effaith tŷ gwydr.

- **Sesiwn 2: Pwy sy'n gyfrifol?**

Bydd y dysgwyr yn rhestru enghreifftiau o sut mae pobl yn achosi'r newid yn yr hinsawdd. Byddant yn nodi cyfranwyr at newid hinsawdd ar hyd cadwyn gyflenwi o'r cae i'r archfarchnad. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn ymchwilio i ôl troed carbon pobl sy'n byw mewn gwahanol wledydd yn y byd.

- **Sesiwn 3: Pwy sy'n cael eu heffeithio?**

Bydd y dysgwyr yn ystyried beth allai gael ei effeithio gan y newid yn yr hinsawdd. Byddant yn defnyddio gwe ganlyniadau a 'dirgelwch' i ystyried ein cydgysylltiad byd-eang ac ymchwilio i rai o effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd ar bobl a'r blaned.

- **Sesiwn 4: Storiâu newid hinsawdd**

Bydd y dysgwyr yn dysgu bod newid hinsawdd yn cael effaith ar bobl o gwmpas y byd. Byddant yn chwarae 'Gêm niwed newid hinsawdd' sy'n pwysleisio mai'r cymunedau mwyaf agored i niwed sydd yn aml yn cael eu heffeithio'n negyddol gan newid hinsawdd, er mai nhw sy'n cyfrannu leiaf at newid hinsawdd. Bydd y dysgwyr yn defnyddio astudiaethau achos i ymchwilio mewn mwy o fanylder i sut mae cymunedau o gwmpas y byd yn cael eu heffeithio gan newid hinsawdd. Yn olaf, byddant yn chwarae rôl i ddangos empathi at rai pobl y mae eu bywoliaeth dan fygythiad gan newid hinsawdd.

- **Sesiwn 5: Addasu i newid hinsawdd**

Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i sut mae rhai cymunedau o gwmpas y byd yn addasu i effeithiau newid hinsawdd. Byddant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd grŵp i ystyried ffyrdd posibl y gall cymuned yn Bangladesh addasu i llifogydd. Yn olaf, byddant yn defnyddio astudiaeth achos i ymchwilio mewn mwy o fanylder sut mae un gymuned yn Bangladesh yn addasu i effeithiau newid hinsawdd.

- **Sesiwn 6: Gweithredu'n erbyn newid hinsawdd**

Bydd y dysgwyr yn archwilio ac yn trafod gwahanol gamau y gellid eu cymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Bydd y dysgwyr wedyn yn nodi camau posibl y gallent gymryd fel ysgol a threfnu'r rhain yn ôl pa mor hawdd ydynt a faint o effaith fyddent yn cael. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn gweithio mewn grŵp i gynllunio eu camau yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.

### **Gwahaniaethu**

Lle y bo'n bosibl, mae'r gweithgareddau a'r adnoddau wedi eu gwahaniaethu i ddiwallu anghenion dysgwyr gwahanol yn y dosbarth. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol hefyd wrth addasu rhai o'r gweithgareddau i ddiwallu anghenion dysgwyr iau a hŷn. Mae llawer o'r sesiynau hefyd yn addas i wahaniaethu ar sail canlyniadau. Gall rhai o'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig yn y *Syniadau Pellach* fod yn ddefnyddiol hefyd i ymestyn dysgwyr mwy galluog.

### **Grŵp oedran**

Mae'r adnoddau hyn yn addas i ddysgwyr 11 i 14 oed. Caiff cysylltiadau â'r cwricwlwm eu rhoi ar gyfer cwricwlwm CA3 yn Lloger, a'r cwricwla perthnasol yng Nghymru a'r Alban. Ond gall llawer o'r gweithgareddau gael eu haddasu ar gyfer dysgwyr iau neu hŷn.

### **Amseriadau**

Rhoddir syniad o amserau'r gweithgareddau. Noder mai brasamcan o'r amserau yn unig yw'r rhain.

## Her Hinsawdd

Sesiwn	Amcanion dysgu	Canlyniadau dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgaredd	Adnoddau
<b>Sesiwn 1:</b>  <b>Beth yw Newid Hinsawdd?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cydnabod y gwahaniaeth rhwng hinsawdd a thywydd.</li> <li>Cydnabod bod hinsawdd y Ddaear yn newid a deall bod gweithgareddau pobl yn cyfrannu at y newid hwn.</li> <li>Deall sut mae effaith tŷ gwydr yn gweithio a rôl carbon deuocsid fel nwy tŷ gwydr.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o newid hinsawdd.</li> <li>Bydd y dysgwyr yn gallu egluro canlyniadau arbrawf sy'n eu helpu i ddeall beth yw effaith tŷ gwydr.</li> <li>Bydd y dysgwyr yn rhannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o newid hinsawdd gydag eraill.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Beth ydw i'n gwybod am newid hinsawdd?</li> <li>Beth yw'r gwahaniaeth rhwng hinsawdd a thywydd?</li> <li>Beth yw newid hinsawdd?</li> <li>Beth yw effaith tŷ gwydr?</li> <li>Beth yw rôl carbon deuocsid yn effaith tŷ gwydr?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithgaredd 1.1: Ras fwrdd newid hinsawdd</li> <li>Gweithgaredd 1.2: Effaith tŷ gwydr mewn jar</li> <li>Gweithgaredd 1.3: Beth ydych yn ei ddeall am newid hinsawdd?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sioe sleidiau <i>Her hinsawdd A</i>: sleidiau 2 – 8.</li> <li>Taflen weithgaredd: <i>Effaith tŷ gwydr mewn jar</i>.</li> </ul>
<b>Sesiwn 2:</b>  <b>Pwy sy'n gyfrifol?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nodi rhai gweithgareddau dynol sy'n cyfrannu at newid hinsawdd.</li> <li>Deall beth yw ôl troed carbon.</li> <li>Cydnabod bod gan bawb yn y byd ôl troed carbon ond bod rhai pobl a gwledydd yn fwy cyfrifol am allyriadau CO<sub>2</sub> nag eraill.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y dysgwyr yn rhestru gweithgareddau dynol sy'n cyfrannu i newid hinsawdd.</li> <li>Bydd y dysgwyr yn nodi a didoli rhai o'r prosesau sy'n gynywedig wrth gynhyrchu torth o fara a'i gael i gartref rhywun. Ystyriant hefyd pa un o'r prosesau hyn syn defnyddio tanwydd ffosil.</li> <li>Bydd y dysgwyr yn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pa weithgareddau gan bobl sy'n cyfrannu tuag at newid hinsawdd?</li> <li>Pa brosesau sydd ar waith wrth gynhyrchu torth o fara?</li> <li>Beth yw ôl troed carbon?</li> <li>Pwy sy'n gyfrifol am newid hinsawdd?</li> <li>Pwy yw'r</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithgaredd 2.1: Beth sydd yn cyfrannu at newid hinsawdd?</li> <li>Gweithgaredd 2.2: Bwyd, diod a newid hinsawdd</li> <li>Gweithgaredd 2.3: Pwy sy'n gyfrifol am newid hinsawdd?</li> <li>Gweithgaredd 2.4:</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sioe sleidiau <i>Her hinsawdd A</i>: 9 – 16.</li> <li>Taflen adnodd: <i>Hanes bywyd can alwminiwm</i>.</li> <li>Tafleni gweithgareddau: <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Taith torth o fara</i>.</li> <li><i>Pwy sy'n gyfrifol am newid hinsawdd?</i></li> </ul> </li> </ul>

		ymchwilio allyriadau CO <sub>2</sub> y person mewn gwledydd o gwmpas y byd.	cyfranwyr mwyaf?	Ymchwilio i'r Atlas Carbon Byd-Eang	
<b>Sesiwn 3: Pwy sy'n cael eu heffeithio?</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nodi rhai o effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, presennol ac i'r dyfodol, ar bobl a'r blaned.</li> <li>Ymchwilio a thrafod effaith y newid yn yr hinsawdd yn bresennol neu i'r dyfodol.</li> <li>Cydnabod ein cydgysylltiad byd-eang a'r canlyniadau posibl sydd i'n gweithredoedd cyfunol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y dysgwyr yn rhestru rhai o effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd.</li> <li>Bydd y dysgwyr yn defnyddio gwe ganlyniadau i ymchwilio i rai o ganlyniadau posibl y newid yn yr hinsawdd.</li> <li>Bydd y dysgwyr yn cydweithio i ddatrys 'dirgelwch' i ddangos sut gall cyfres o weithredoedd cyfunol gael effaith sylweddol ar eraill.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Beth allai gael ei effeithio gan y newid yn yr hinsawdd?</li> <li>Sut gallai hyn gael ei effeithio gan y newid yn yr hinsawdd?</li> <li>Pwy allai gael ei effeithio gan y newid yn yr hinsawdd?</li> <li>Sut mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bobl dlawd y byd?</li> <li>Sut gallai gweithredoedd cyfunol pobl mewn un wlad effeithio ar bobl mewn gwledydd eraill?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithgaredd 3.1: Effeithiau newid hinsawdd</li> <li>Gweithgaredd 3.2: Canlyniadau newid hinsawdd Activity</li> <li>Gweithgaredd 3.3: Pam wnaeth stondin Runa gau?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sioe sleidiau <i>Her hinsawdd A</i> : sleidiau 17 – 26.</li> <li>Taflenni adnodd: <i>Effeithiau newid hinsawdd 1 a 2.</i></li> <li>Taflenni gweithgaredd: <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Canlyniadau newid hinsawdd.</i></li> <li><i>Pam wnaeth stondin Runa gau? Cardiau dirgelwch 1 a 2.</i></li> </ul> </li> </ul>
<b>Sesiwn 4: Storiau Newid Hinsawdd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cydnabod bod pawb yn cael eu heffeithio gan newid hinsawdd ond mai'r rhai sy'n byw mewn tldi sydd fwyaf bregus.</li> <li>Disgrifio rhai o'r ffyrdd y</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y dysgwyr yn chwarae 'Gêm niwed newid hinsawdd' i ddatblygu eu dealltwriaeth mai'r cymunedau mwyaf</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sut mae pobl a chymunedau yn cael eu heffeithio gan newid hinsawdd?</li> <li>Sut ydw i'n</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithgaredd 4.1: Gêm niwed newid hinsawdd</li> <li>Gweithgaredd 4.2: Storiâu newid</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sioe sleidiau <i>Her hinsawdd B</i>; sleidiau 2 – 7.</li> <li>Taflen weithgaredd: <i>Gêm niwed newid hinsawdd – Cardiau rôl.</i></li> </ul>



	<p>mae cymunedau o gwmpas y byd yn cael eu heffeithio gan newid hinsawdd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dangos empathi at rai pobl sydd yn y perygl mwyaf o ddiodef effeithiau newid hinsawdd.</li> </ul>	<p>bregus yn aml sydd yn cael eu heffeithio'n fwyaf negyddol gan newid hinsawdd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y dysgwyr yn egluro mewn manylder sut mae newid hinsawdd yn effeithio'n negyddol ar gymuned neu unigolyn.</li> </ul>	<p>meddwl y mae hyn yn gwneud iddynt deimlo?</p>	<p>hinsawdd</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Taflenni adnoddau: <i>Storiâu newid hinsawdd.</i></li> </ul>
<p><b>Sesiwn 5: Addasu i Newid Hinsawdd</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Deall beth mae addasu i newid hinsawdd yn ei olygu.</li> <li>• Disgrifio rhai ffyrdd mae cymunedau o gwmpas y byd yn addasu i effeithiau newid hinsawdd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y dysgwyr yn adnabod ffyrdd penodol y mae unigolion a chymunedau yn addasu i effeithiau newid hinsawdd.</li> <li>• Bydd y dysgwyr yn gweithio gydag eraill i chwilio ac adolygu ffyrdd posibl y gall cymuned yn Bangladesh addasu i lifogydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Beth yw addasu i newid yn yr hinsawdd?</li> <li>• Sut mae pobl a chymunedau yn cael eu heffeithio gan newid hinsawdd?</li> <li>• Beth fydddech chi'n gwneud?</li> <li>• Sut mae pobl a chymunedau yn addasu i effeithiau newid hinsawdd?</li> <li>• Sut mae Oxfam yn helpu cymunedau i addasu i effeithiau newid hinsawdd?</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithgaredd 5.1: Beth fydddech chi'n gwneud?</li> <li>• Gweithgaredd 5.2: Stori Sahena</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sioe sleidiau <i>Her hinsawdd B</i>: sleidiau 8 – 24.</li> <li>• Taflenni adnoddau: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <i>Llifogydd yn Bangladesh.</i></li> <li>○ <i>Stori Sahena – Astudiaeth achos.</i></li> </ul> </li> <li>• Taflen weithgaredd: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <i>Stori Sahena – Cardiau ysgogi.</i></li> <li>○ <i>Stori Sahena – Penawdau.</i></li> </ul> </li> </ul>
<p><b>Sesiwn 6:</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi amrywiaeth o gamau posibl y gellid eu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y dysgwyr yn rhestru rhai camau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pa gamau ellir eu cymryd yn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithgaredd 6.1: Beth mae</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sioe sleidiau <i>Her hinsawdd B</i>: sleidiau 25</li> </ul>

<p><b>Gweithredu'n erbyn Newid Hinsawdd</b></p>	<p>cymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deall y bydd camau yn amrywio yn dibynnu ar ba mor hawdd ydynt i'w cymryd a'r effaith a gânt.</li> </ul>	<p>posib y gellid eu cymryd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y dysgwyr yn ystyried ac yn trefnu gwahanol gamau yn ôl pa mor hawdd ydynt ac yn ôl eu heffaith.</li> </ul>	<p>erbyn y newid yn yr hinsawdd?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pa gamau allwn ni gymryd?</li> <li>• Pa mor hawdd fydd cymryd y camau hyn?</li> <li>• Pa effaith fydd y camau hyn yn gael?</li> </ul>	<p>gweithredu yn erbyn newid hinsawdd yn golygu?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithgaredd 6.2: Rhoi'r camau yn eu trefn</li> <li>• Gweithgaredd 6.3: Dewis un o'r camau</li> <li>• Gweithgaredd 6.4: Cynllunio i weithredu yn erbyn newid hinsawdd</li> </ul>	<p>– 34.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Taflenni adnodd: <i>Gweithredu yn erbyn newid hinsawdd – Astudiaethau achos 1 a 2.</i></li> <li>• Taflenni gweithgaredd: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <i>Rhannu'r camau i categorïau</i></li> <li>○ <i>Rhoi'r camau yn eu trefn</i></li> <li>○ <i>Dadansoddi'r camau</i></li> <li>○ <i>Grid cynllunio i weithredu</i></li> </ul> </li> </ul>
---	--	--	---	--	--